# ADRODDIADAU STRWYTHUROL

Rhaid cynnwys adroddiad strwythurol gyda phob cais ar gyfer addasu adeiladau gwledig yn llety preswyl neu'n llety gwyliau, neu adfer hen breswylfeydd gadawedig y tu allan i derfynau aneddiadau. Rhaid i'r adroddiad fod yn seiliedig ar arolwg cynhwysfawr o'r adeilad dan sylw, yn fewnol ac yn allanol, wedi'i gynnal gan weithiwr proffesiynol cymwys priodol gydag indemniad digonol.

Dylai'r adroddiad fod ar ffurf adroddiad ffurfiol, wedi'i strwythuro er mwyn cynnwys yr adrannau/penodau canlynol:

**Cyflwyniad** Dylai hyn grynhoi'r briff a roddir gan yr ymgeisydd i'r datblygiad arfaethedig. Dylai'r person a oedd wedi cynnal yr arolwg ac wedi paratoi'r adroddiad nodi ei gymhwyster/gymwysterau proffesiynol, oni nodir yn wahanol yn rhywle arall yn yr adroddiad, a darparu cadarnhad o indemniad priodol.

**Lleoliad a Disgrifiad o'r Safle** Mae angen nodi lleoliad daearyddol yr eiddo yn y cais a safle cymharol yr adeilad o ran adeiladau a nodweddion tirwedd cyfagos eraill. Dylid darparu defnydd presennol neu ddefnydd olaf yr adeilad, ynghyd â chefndir o ran ei ddefnydd(iau) gwreiddiol a chyfamserol. Dylid gwneud sylwadau ar unrhyw nodweddion penodol sy'n unigryw i'r adeilad a'i leoliad.

**Arolwg o'r Cyflwr Presennol** Dylai'r adroddiad gwmpasu pob agwedd ar ffurflen yr adeilad gan gynnwys elfennau a deunyddiau adeiladu, sylfeini a lloriau, saernïaeth a dyluniad y to. Mae angen nodi a chymhwyso pob maes o ran gwendid strwythurol. Yn ogystal bydd angen i feysydd o'r fath gael eu darlunio a'u hanodi ar y cynlluniau manwl atodol gyda'r cais, oni bai bod rhai ar wahân wedi'u hatodi i'r adroddiad. Yn yr un modd, bydd angen cwmpasu unrhyw lawr cyntaf neu lofft yn yr arolwg, ynghyd â dyluniad a chyflwr y to.

**Cynllun Addasu Arfaethedig** Bydd angen i bob agwedd strwythurol ar yr adeilad a fyddai'n gofyn am newid, ailosod, adfer neu ailadeiladu fod yn gwbl fanwl, yn benodol, ac yn glir yn y cynlluniau a gyflwynir. Byddai'r rhain yn cynnwys lloriau newydd a gwaith atal lleithder cysylltiedig, linteli ffenestri a drysau a silffoedd ffenestri newydd, agoriadau ffenestri a drysau newydd, lloriau cyntaf neu ail loriau wedi'u newid neu rai newydd, ac atgyweirio neu newid trawstiau to. Mae angen cyfeirio at newidiadau i lefelau tir allanol a nodweddion y dirwedd, megis cwympo coed neu ddargyfeirio pynfeirch melinau ac ati. Mae angen manylu ar estyniadau a'u perthynas â'r adeilad presennol.

**Casgliad** Dylai hwn ddwyn ynghyd y wybodaeth a gasglwyd o adrannau uchod yr adroddiad, gan ffurfio barn broffesiynol gymwys ar adeiladwaith a chadernid strwythurol yr adeilad cynnal a'i allu i ddarparu ar gyfer y gwaith addasu arfaethedig.

**Argymhellion** Mae angen cyfeirio at bob agwedd strwythurol ar y gwaith addasu arfaethedig a nodwyd fel gwaith y mae angen rhoi sylw iddo, ynghyd â'r union waith adfer a'r gwaith cysylltiedig. Byddai materion o'r fath yn cynnwys mesurau dros dro neu barhaol i ddiogelu cadernid waliau allanol a mewnol, er enghraifft cadw strwythur y to wrth gloddio lefelau daear; growtio waliau dan bwysedd; atgyfnerthu a thrwsio craciau yn y lintel; capio neu gastio trawstiau cylchol (*ring-beam*) o ran waliau allanol; cynnal waliau wrth newid linteli neu ffurfio drysau newydd; mesurau i wneud iawn am "wthiad" neu "grebachiad" daear a achosir gan waredu coed neu waith draenio; ac ati.

Bydd ceisiadau perthnasol a gyflwynir heb arolwg strwythurol nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion a'r fformat uchod yn debygol o fod yn destun argymhelliad i'w gwrthod oherwydd diffyg gwybodaeth sylweddol.